Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Cynllun Gweithredu Adfer Natur

2026 - 2029

This document is also available in English

www.tancgc.gov.uk

# Cefndir

Datblygwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn 2015 er mwyn cefnogi ac ategu'r amcanion llesiant hirdymor a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cyrff cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ddarostyngedig i Ddyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Ddeddf yn cyflawni ymrwymiad y llywodraeth i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer amddiffyn yr amgylchedd ac yn rhoi'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen ar waith i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd mwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig, ac mae'n dangos ymrwymiad y Llywodraeth i addasu i effeithiau newid cynyddol yn yr hinsawdd.

Cyflwynwyd Dyletswydd Adran 6, Rhan 1 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau Cymru, gan eu bod yn hanfodol i'n lles ni. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i **awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol**. Mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth uwch i gydnabod y cysylltiad rhwng bioamrywiaeth a gweithrediad hirdymor ecosystemau.

Yn 2025, fe wnaeth CNC baratoi a chyhoeddi eu trydydd Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR 2025). Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod bron i un o bob pum rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddifodiant, a bod llygredd, defnydd tir anghynaladwy a newid yn yr hinsawdd yn arwain at golledion pellach ar draws amgylcheddau'r wlad.

Ar 27 Mawrth 2026, cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2026 sy'n amlinellu nodau ar gyfer adfer a gwella amgylchedd naturiol Cymru. Mae'r cynllun newydd yn cyd-fynd â fframweithiau rhyngwladol a chenedlaethol, megis Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) a'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang (GBF), a'i nod yw cynnal ymdrechion parhaus a hirdymor i fynd i'r afael ag argyfyngau natur a hinsawdd. Mae Cynllun 2026 i Gymru yn cynnwys nodau newydd sy'n disodli amcanion Cynllun 2015 i Gymru. Bydd cynllun Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn cyd-fynd â nodau newydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2026.

Amlygir bod dal angen i awdurdodau cyhoeddus heb dir ystyried pob agwedd ar wytnwch, gan y gall eu penderfyniadau a'u gweithredoedd ddylanwadu ar ecosystemau'n anuniongyrchol, er enghraifft, trwy eu polisi caffael neu drwy benderfyniadau ac amodau cyllido.

Er mwyn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Adran 6, rhaid i'r rhan fwyaf o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi pa gamau y maent yn eu cynnig i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. Bydd adroddiad monitro ar yr hyn y mae awdurdodau cyhoeddus unigol wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd dros y 3 blynedd diwethaf yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r ddogfen hon. Mae'r Adroddiad Monitro llawn o'r hyn y mae GTACGC wedi'i gyflawni rhwng 2023–26 i'w weld ar wefan allanol y Gwasanaeth.

# Adran 1

## Cyflwyniad a Chyd-destun

Mae GTACGC wedi ymrwymo i ragoriaeth a'i weledigaeth yw darparu'r gwasanaeth Tân ac Achub gorau posibl i gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd presennol, yn ogystal â pwysigrwydd cynyddol yr angen i ddiogelu'r amgylchedd a gwarchod y cynefinoedd a'r adnoddau yn yr ardal rydym yn ei gwasanaethu.

Rydym yn gweithredu ar draws 4,500 milltir sgwâr o ardal wledig yn bennaf sy'n ffurfio dwy ran o dair o ardal Cymru, gan gynnwys chwe sir, sef Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Abertawe, Sir Benfro a Phowys. Yn yr ardal hon mae sawl Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd ac wedi ymrwymo i leihau ei effaith ar yr amgylchedd. Caiff hyn ei adlewyrchu yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040, y Polisi Amgylcheddol, y Map Ffordd Lleihau Carbon 2030, y dogfennau canllawiau, strategaethau ac yn ein hardystiadau. Amlinellir nodau ac amcanion cynaliadwyedd ac amgylcheddol y Gwasanaeth yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol a'r CRhRC 2040 mlynedd a gyhoeddir ar wefan allanol y Gwasanaeth.

Mae gan Wasanaethau Tân ymrwymiad i fod yn gyfrifol yn amgylcheddol, ac fel y cyfryw, mae'r Gwasanaeth wedi cyrraedd Lefel 5 Safon Rheoli Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn gyson ers 2014. Ers hynny, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i gynnal y lefel uchaf sydd ar gael bob blwyddyn hyd yma, yn fwyaf diweddar ym mis Chwefror 2026. Er mwyn cydymffurfio â'r Safon, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o weithdrefnau amgylcheddol ac arweiniad ar gael i bob aelod o staff drwy'r wefan fewnol. Rydym yn eu defnyddio i gefnogi ein System Rheoli Amgylcheddol Gwasanaeth, sy'n sicrhau gwelliant amgylcheddol parhaus ac yn gwella ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd amgylcheddol yn ein gweithgareddau a'n gweithrediadau.

Mae GTACGC yn aelod statudol o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n adrodd yn flynyddol i Lywodraeth Cymru ar ein hamcanion Llesiant. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae wedi croesawu ei ddyletswyddau a'i rôl fel partner statudol ar draws y chwe Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae CRhRC 2040 y Gwasanaeth yn cynnwys wyth amcan strategol, gan gynnwys ymrwymiadau amgylcheddol. Mae'r Cynllun yn cael ei adolygu bob chwarter i gynhyrchu nodau a gwelliannau strategol ystyrlon ac amcanion llesiant yn erbyn ein blaenoriaethau strategol bob blwyddyn. Caiff pob cyfarfod amcan y CRhRC ei gadeirio gan aelod o'r Tîm Arwain Gweithredol, ac mae Bwrdd Cyflawni cyffredinol yn ymgynnull bob chwarter i fonitro a chyflawni cynnydd.

Mae'r Adroddiad canlynol yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r Gwasanaeth yn bwriadu ei wneud drwy ei weithgareddau a'i weithrediadau i gydymffurfio ag Adran 6 o Ddeddf Dyletswydd yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac i annog bioamrywiaeth i bob safle sy'n eiddo iddynt, waeth pa mor fach neu fawr yr ymdrech. Mae'r Adroddiad yn cwmpasu'r holl Orsafoedd Tân, Gweithdai, Cyfleusterau Hyfforddi ac adeiladau gweinyddol o fewn ystâd y Gwasanaeth a chamau gweithredu sy'n ymwneud â'u swyddogaethau.

## Section 2
### Cynllun Gweithredu Adfer Natur

Dyma drydydd Cynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth, ac mae'n cwmpasu'r cyfnod 2026–2029. Mae'n nodi camau gweithredu sydd wedi'u nodi'n benodol i gyflawni amcanion y Gwasanaeth ac i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth ac effaith y Gwasanaeth ar yr amgylchedd. Defnyddiwyd Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2026 y Llywodraeth i sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd ag amcanion y Gwasanaeth Tân. Nid gwelliannau bioamrywiaeth ar ein safleoedd yn unig sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gweithredu, mae hefyd yn cynnwys cyfleoedd i gydweithio â phartneriaid allanol a grwpiau cymunedol. Cyhoeddwyd adroddiad monitro ar wahân mewn perthynas â'r cyflawniadau y mae'r Gwasanaeth wedi'u gwneud tuag at yr amcanion o fewn y Cynllun ar gyfer 2023–26.

Mae'r Gwasanaeth yn ymateb i alwadau ar draws dwy ran o dair o ardal ddaearyddol Cymru, ond prin iawn yw'r tir sydd ar gael yn ei Orsafoedd Tân ac adeiladau gweinyddol. Mae'r tabl isod yn categoreiddio faint o fannau gwyrdd sydd ar gael yn lleoliadau'r Gwasanaeth ac o ganlyniad yn amlygu lle y gallwn gael dylanwad uniongyrchol mewn perthynas â gofynion Dyletswydd Adran 6.

| | Llai na 5% o fannau gwyrdd | Llai na 5-39% o fannau gwyrdd | Dros 40% o fannau gwyrdd |
|---|---|---|---|
| Nifer y lleoliadau | 37 | 16 | 4 |

Fel yr amlinellir yn CRhRC 2040, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau cynaliadwyedd wrth ddarparu rhagoriaeth Gwasanaeth. I wneud hyn, rydym yn bwriadu defnyddio llai o ynni, gweithio tuag at beidio anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi, gwella'r mannau gwyrdd sydd ar gael, lleihau ôl troed carbon ar draws ein Gwasanaeth, a sicrhau bod y gadwyn gyflenwi a chyflwyniad y gwasanaeth yn amgylcheddol gynaliadwy ac yn gweithio tuag at leihau allyriadau cwmpas 3.

Mae'r CRhRC, y Map Ffordd Lleihau Carbon a'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol yn nodi'r prif egwyddorion, y cynigion a'r camau angenrheidiol i leihau effeithiau amgylcheddol gweithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth. Adolygir yr amcanion Amgylcheddol yn flynyddol ac fe'u cyhoeddir yn ein Hadroddiad Amgylcheddol Blynyddol a thrwy amcanion y CRhRC.

Nod y Gwasanaeth yw gwella arferion gwaith a gweithgareddau yn barhaus gan ystyried yr effaith amgylcheddol tymor byr a thymor hir. Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ymdrechu i leihau ei ôl troed carbon ac yn parhau i wneud gwaith ymchwil i dechnoleg adnewyddadwy gynaliadwy werdd ar gyfer y fflyd a'i adeiladau,

yn ogystal â chwilio am gyfleoedd cydweithio a allai wella ei effaith ar yr amgylchedd. Nod y Gwasanaeth yw bod yn Wasanaeth Tân sy'n sensitif i'r amgylchedd lle mae datblygu cynaliadwy a materion amgylcheddol wedi'u hymgorffori yn ei holl brosesau gwneud penderfyniadau; gan wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Mae ystod eang o waith yn cael ei wneud o fewn y Gwasanaeth tuag at amcanion amgylcheddol. Mae'r prosiectau hyn yn cyd-fynd â Dyletswydd Adran 6 yn unol ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2026, fel a ganlyn:

### Nod 1
**Diogelu, adfer a rheoli ecosystemau yn effeithiol er mwyn adeiladu eu gwytnwch**

### Nod 2
**Diogelu rhywogaethau a chreu lle i rywogaethau ffynnu**

### Nod 3
**Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau**

### Nod 4
**Sefydlu llywodraethiant effeithiol a gallu i gyflawni**

### Nod 5
**Ymgorffori bioamrywiaeth trwy ymgysylltu a gwella ymwybyddiaeth i gefnogi penderfyniadau effeithiol ar bob lefel**

### Nod 6
**Gwella ein tystiolaeth a'n gwaith monitro**

## Adran 3
### Nodau ac Amcanion

Mae'r tabl isod yn dangos yr amcanion yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2026 yn ogystal â'r amcanion y mae'r Gwasanaeth wedi'u datblygu ochr yn ochr â hwy ar gyfer y 3 mlynedd nesaf. Bydd y rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd, a bydd cynnydd yn cael ei amlygu yng nghyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd ac yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol.

Bydd yr amcanion hyn yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau mewn gweithgareddau a phrosiectau dros y 3 blynedd nesaf.

<table>
<tr><th>Amcanion CGAD Cymru 2026</th><th>Amcanion CGAD GTACGC ar gyfer 2026–29</th></tr>
<tr><td>Nod 1<br><br>Diogelu, adfer a rheoli ecosystemau yn effeithiol er mwyn adeiladu eu gwytnwch</td><td rowspan="2">Gwella ac annog y rheolaeth o gynefinoedd ac adferiad cynefinoedd yn ogystal â seilwaith gwyrdd ar dir Gwasanaeth trwy gydweithrediadau allanol, gwaith ymgysylltu mewnol a chyfleoedd ariannu.<br><br>Cyfrannu at reoli safleoedd gwarchodedig trwy gydweithio â phartneriaid allanol a thrwy ystyriaethau amgylcheddol ar gyfer technegau ymateb i ddigwyddiadau.<br><br>Parhau i weithio gyda Thimau Cynnal a Chadw Tir i annog a gwella cynefinoedd a bioamrywiaeth newydd a phresennol ar leoliadau'r Gwasanaeth.<br><br>Gweithio gyda sefydliadau allanol lle bo hynny'n bosibl i reoli ardaloedd sydd â chynefinoedd pwysig, nodi a mapio'r cynefinoedd hyn ar draws yr ardaloedd yr ydym yn eu gwasanaethu.<br><br>Gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol i gynyddu gwydnwch a galluogi rheoli tir lleol.</td></tr>
<tr><td>Nod 2<br><br>Diogelu rhywogaethau a chreu lle i rywogaethau ffynnu</td></tr>
<tr><td>Nod 3<br><br>Mynd i'r afael â phwysau allweddol ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau</td><td>Sicrhau bod ardaloedd pwysig o ran cynefinoedd gwarchodedig yn cael eu hamlygu ar y Derfynell Data Symudol i hysbysu criwiau tân.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid allanol i adnabod ardaloedd lle ceir rywogaethau pwysig a gwarchodedig.<br><br>Gweithio gyda'r tîm cynnal a chadw Tir i fod yn amgylcheddol gynaliadwy, annog creu cynefinoedd a hyrwyddo Gwasanaeth Tân heb blaladdwyr.<br><br>Gwella ansawdd aer lleol trwy leihau allyriadau Cwmpas 1,2 a 3.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Ystyried effeithiau amgylcheddol mewn digwyddiadau o ran y defnydd o ewyn a dŵr.<br><br>Monitro'r gwastraff a gynhyrchir ledled y gwasanaeth i sicrhau mai'r lleiafswm ohono sy'n cael ei yrru i safleoedd tirlenwi. |
| Nod 4<br><br>Sefydlu llywodraethiant effeithiol a gallu i gyflawni | Rhoi sylw i gyfraniad y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol at weithredu Amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.<br><br>Monitro ac adrodd ar amcanion Amgylcheddol drwy Fwrdd Cyflawni CRhRC ar gyfer Amcan 7 a'r Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.<br><br>Darparu diweddariadau ar amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. |
| Nod 5<br><br>Ymgorffori bioamrywiaeth trwy ymgysylltu a gwella ymwybyddiaeth i gefnogi penderfyniadau effeithiol ar bob lefel | Annog gweithredu dros fioamrywiaeth ar draws y Gwasanaeth drwy ymgysylltu ac ymwybyddiaeth o Ddyletswydd Adran 6 a Chynllun Gweithredu Adfer Natur y Gwasanaeth.<br><br>Datblygu ac addysgu Staff trwy wella ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn meysydd allyriadau, cadwraeth bioamrywiaeth, argyfwng hinsawdd ac adferiad natur ar dir gwasanaeth ac ardaloedd sy'n gweithredu.<br><br>Hyrwyddo, gweithredu a datblygu ymgyrchoedd amlasiantaethol i amddiffyn a hysbysu cymunedau am effaith tân.<br><br>Cefnogi a hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol a chydweithredu allanol trwy wella ymwybyddiaeth ac addysg mewn meysydd megis lleihau llosgi bwriadol, ymgyrchoedd ymgysylltu â thanau gwyllt ac effeithiau newid yn yr hinsawdd ar yr amgylchedd. |
| Nod 6<br><br>Gwella ein tystiolaeth a'n gwaith monitro | Gwella ein Systemau Rheoli Busnes a gosod a monitro Paneli Solar ar leoliadau'r Gwasanaeth.<br><br>Parhau i ymgorffori Cynllun Lleihau Carbon y Gwasanaeth ac i wella ymwybyddiaeth ohono er mwyn gweithio tuag at Sero Net.<br><br>Gwella/monitro ein defnydd o ddŵr mewn digwyddiadau.<br><br>Cydweithio amlasiantaethol i wella cyflawni, cydweithio ac ymateb.<br><br>Lle bo'n bosibl, cyd-fynd â gofynion a thargedau amgylchedd, natur a newid hinsawdd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac annog cyfranogiad mewn gweithredu gyda grwpiau amgylcheddol lleol. |

## Adran 4

### Cyflawni, Monitro ac Adolygu

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i weithio tuag at yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur 2026–29 dros y 3 blynedd nesaf. Bydd y gwaith o gyflawni'r amcanion yn cael ei fonitro gan y Rheolwr Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd, a bydd yn cael ei gyflawni trwy gyfleoedd cydweithio allanol, y gallu i addasu ac adnoddau.

Bydd yr Amcanion yn cael eu monitro bob chwarter yng Nghyfarfodydd y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd a bydd cynnydd yn cael ei ddangos yn yr Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. Cyhoeddir yr adroddiad ar wefan allanol y Gwasanaeth a chaiff ei adolygu a'i wirio yn ystod archwiliad System Reoli Amgylcheddol allanol blynyddol y Gwasanaethau. Adroddir ar uchafbwyntiau a chanlyniadau yn Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu Adfer Natur Dyletswydd Adran 6 bob 3 blynedd.





# Cyfryngau Cymdeithasol

**Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

JR2161

# Cynllun Gweithredu Adfer Natur

2026 - 2029

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

**EIN GWELEDIGAETH**
I ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru.

**OUR VISION**
To deliver the best possible service for the communities of Mid and West Wales.

This document is also available in English

www.mawwfrs.gov.uk